


Siarter Sir Gâr



cymdeithas
yr iaith
gymraeg

Mehefin 2013

Rhagair

Yn wyneb Cyfrifiad 2011 a'r cwmp o 6% yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr, cyhoeddir Siarter Sir Gâr 2013. Dyma argymhellion Cymdeithas yr Iaith ar sut i daclo'r argyfwng sy'n wynebu'r iaith Gymraeg a chymunedau Cymraeg Sir Gâr.

Galwn ar Gyngor Sir Gâr i gydnabod yr argyfwng yma ac i weithredu ar frys er mwyn rhwystro dirywiad pellach. Credwn fod cyfrifoldeb ar y Cyngor Sir i weithio'n uniongyrchol i wireddu amcanion Siarter Sir Gâr trwy ei weithgareddau ei hunan, ac i roi arweiniad i bartneriaid a chyrff eraill mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n meddu ar y grym uniongyrchol i weithredu.

Mae gwir angen gweithredu brys ac arweiniad clir a chadarn gan Gyngor Sir Gâr er mwyn gwyrddroi'r dirywiad yn sefyllfa'r Gymraeg . Os pery tueddiadau'r blynyddoedd diwethaf, byddwn yn llithro i sefyllfa lle na fydd y Gymraeg yn parhau'n iaith gymunedol fyw yn Sir Gâr. Wrth ymateb i ffigyrau'r Cyfrifiad, arwyddodd miloedd o bobl ddatganiad yn mynnu nad ydynt am weld hyn yn digwydd a'u bod eisiau byw yn Gymraeg yn Sir Gâr. Dyma osod her felly i'r Cyngor Sir greu'r amodau all sicrhau dyfodol llewyrchus i'r iaith Gymraeg a chymunedau Cymraeg yn Sir Gâr.



Cyhoeddwyd gan: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Rhanbarth Sir Gâr, Dolwerdd, Llanfihangel ar Arth, Pencader, Sir Gaerfyrddin, SA39 9JU - 01559 384378 - sioned@cymdeithas.org

1. Y Gymraeg yn iaith Swyddogol

Dylai'r Cyngor Sir gyflwyno cynllun i drawsnewid iaith ei weinyddiaeth ei hunan o'r Saesneg i'r Gymraeg. Bydd hyn yn rhoi arweiniad clir ac yn rhoi cyfle i bobl sy'n gweithio i'r Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Byddai cael prif ddarparwr gwasanaethau a chyflogwr mor amlwg yn y Sir yn mabwysiadu'r Gymraeg yn brif gyfrwng ei waith yn cynyddu hyder trigolion y Sir yn yr iaith ac yn cryfhau'r cymhelliant i feistrolï'r iaith ymhlith disgyblion ysgol ac oedolion sy'n mynd ati i ddysgu'r iaith.



2. Addysg Gymraeg Ym Mhob Cymuned

- 1) Galwn am gydnabod fod y gallu i gyfathrebu a chyflawni gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg yn sgil addysgol hanfodol na ddylid amddifadu unrhyw ddisgybl na myfyriwr ohono. Mae tystiolaeth addysgol gadarn o wahanol wledydd i werth cadarnhaol dwyieithrwydd, ac ni ddylid rhoi unrhyw ddisgybl o dan anfantais gan fod llawer o waith yn y Gymru gyfoes yn ddibynnol ar y gallu i gyflawni tasgau yn y ddwy iaith. Er mwyn gwireddu hyn, galwn am
 - a) Cryfhau ysgolion cynradd cyfrwng Gymraeg y sir trwy sicrhau fod darpariaeth effeithiol mewn canolfannau ar gyfer hwyr-ddyfodiaid er mwyn eu galluogi i ymuno â phrif ffrwd addysg yn eu hysgol gymunedol o fewn tymor neu ddau. Dyma estyn egwyddor cynhwysiant at yr hwyr-ddyfodiaid, a sicrhau na thorrir ar draws prif ffrwd addysg yn yr ysgolion cymunedol. O ystyried canlyniadau'r Cyfrifiad, dylai hyn fod yn fater o flaenoriaeth gan sicrhau fod pob disgybl sy'n symud i'r sir yn treulio ei dymor cyntaf mewn canolfan o'r fath fel y gellir ei integreiddio'n syth wedyn i mewn i addysg yn ei gymuned ac y caiff y cyfle gorau posibl.
 - b) Cynllun ac amserlen i symud yr ysgolion cynradd nad ydynt yn rhai cyfrwng Gymraeg i fyni'r continiwm ieithyddol fel na chaiff eu disgyblion eu hamddifadu o sgil addysgol hanfodol.
 - c) Cynllun ac amserlen i symud yr ysgolion uwchradd yn y sir sy'n cynnig nifer o bynciau'n Gymraeg (os bydd gofyn) ar hyd y continiwm ieithyddol. Ni all myfyrwyr ennill y sgil addysgol hanfodol i gyfathrebu a chyflawni eu gwaith yn Gymraeg os yw eu profiad o'r Gymraeg yn gyfyngedig yn bennaf i'r sector cynradd. Yn wir, gall cefnu ar addysg Gymraeg wrth drosglwyddo i'r sector uwchradd amharu ar addysg a magu agweddau negyddol. Mae angen strwythuro datblygiad mewn ysgolion uwchradd 2B – yn Rhydaman, Dyffryn Tywi a Hendy Gwyn – trwy sicrhau fod pob disgybl sy'n dod o ysgol gynradd categori "A" yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar gyfer ffrwd Gymraeg, a bod amserlen i droi'r ysgolion hyn yn ysgolion categori 2A fel na fydd unrhyw un o'r disgyblion o dan anfantais addysgol. Mae angen adolygiad brys o sefyllfa anghyson Ysgol Emlyn – ysgol sy'n addysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg er bod pob ysgol gynradd sy'n ei bwydo yn ysgol Gymraeg. Mater brys ydyw o ganlyniad i ad-drefnu yr ochr arall i'r ffin yn Llandysul.
 - ch) Cynllun brys ar gyfer y disgyblion sydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n addysgu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Saesneg, ac sy'n cael eu hamddifadu'n llwyr o'r sgil addysgol i fedru cyflawni eu gwaith yn Gymraeg. Gofynnwn i'r Cyngor Sir ymateb rhag blaen i'n galwad ar lywodraeth ganolog i derfynu'r holl gysyniad o "Cymraeg Ail iaith" gan fod y Gymraeg yn perthyn i bawb. Galwn am sicrhau fod yr holl ysgolion Saesneg eu cyfrwng yn dechrau trosglwyddo peth o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg a chynigiwn fel manau cychwyn (i) Addysg Gorfforol (ii) Astudiaethau "Bro" a (iii) sicrhau fod y Gymraeg yn hanfodol i unrhyw uned feithrin sy'n gysylltiedig ag ysgolion y sir.
 - d) Cymhwyster penodol gan ddarparwyr cyrsiau galwedigaethol (Coleg Sir Gâr a'r ysgolion) i sicrhau fod gan bob myfyriwr dystysgrif eu bod yn gallu cyfathrebu a chyflawni eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg cyn dderbyn achrediad eu bod wedi cwblhau cwrs galwedigaethol. Mae angen i'r modiwlau Gymraeg hyn fod wedi'u teilwra o ran deunydd at natur y cyrsiau eu hunain.
 - dd) Cyrsiau hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon y sir (e.e. Addysg Gorfforol) i wneud hyn yn ymarferol.
 - e) Fod y Cyngor yn trefnu ymgrych gyhoeddusrwydd fawr i argyhoeddi rhieni – ar sail y dystiolaeth addysgol gadarn ac eang sydd ar gael yn rhyngwladol – am fanteision

addysg ddwyieithog, a phaham na all y Cyngor ar sail addysgol ganiatáu i ddisgyblion gael eu hamddifadu o'r gallu i gyfathrebu a chyflawni'u gwaith yn Gymraeg. Swyddogaeth Awdurdod Addysg fel Caerfyrddin yw cynnig arweiniad cadarn yn y mater hwn, gan fod "hybu'r iaith Gymraeg" yn un o amcanion strategaeth gorfforaethol y Cyngor ei hun.

- 2) Galwn am addysg sy'n grymuso disgyblion o ran eu dealltwriaeth o'u cymunedau a sut y gallant ddylanwadu, a hyn trwy
 - a) Sefydlu gweithgor i ymchwilio i arfer gorau o ran datblygu Astudiaethau Cymunedol mewn ysgolion mewn prosiectau traws-bynciaol.
 - b) Ymgynghori â Chynghorau Ysgol fel rhan naturiol o'r broses cynllunio ac ymgynghoriadau cyhoeddus eraill, a hyn trwy gyfrwng y Gymraeg fel y daw disgyblion i arfer trafod dyfodol eu cymunedau a datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb amdanynt.
 - c) Sicrhau fod cyflwyniad i'r cymunedau lleol yn allweddol i'r addysg a dysgu ieithyddol mewn canolfannau hwyr-ddyfodiaid, gan annog sesiynau teuluol hefyd.
- 3) Galwn am sicrhau fod ein sefydliadau addysg yn rhan o wead ein cymunedau gyda chenhadaeth eang, yn hytrach na chael eu hystyried yn wasanaeth cyhoeddus i'w threfnu'n ganolog. Galwn am roi terfyn ar strategaeth o gynlluniau biwrocrataidd i amddifadu cymunedau o'u hysgolion, ac am ddechrau proses penagored o drafod gyda chymunedau sut y gallant ddatblygu'r defnydd o'u hysgolion a'u hadnoddau yn asedau i adfywio'n cymunedau Cymraeg. Bydd yr union fodel yn gwahaniaethu o gymuned i gymuned, ond yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol -
 - a) fod cynllunio'r model gorau o ysgol bentref mewn cydweithrediad â phobl leol a bod iddynt gyfrifoldeb drosti.
 - b) Fod datblygu amrywiaeth o fodolau blaengar a all gynnwys cyfuno neuadd / ysgol / gwasanaethau pentref mewn un adnodd hyfyw, sefydlu ymddiriedolaeth i ofalu am yr adeilad a'r Awdurdod yn rhentu gofod ar gyfer ysgol gyda defnydd gan y Cyngor neu asiantaeth arall o ofod dros ben yn yr adeilad.
 - c) Fod ysgolion cyfagos yn cydweithio'n addysgol yn y model (boed ffederasiwn, clwstwr neu ysgol aml-safle) sy'n gweddu orau ag anghenion y cymunedau lleol er mwyn rhoi'r profiad addysgol ehangaf i'r disgyblion.
 - ch) Fod y cyswllt mwyaf posibl rhwng yr ysgol a'r gymuned fel y daw yr ysgol yn bwerdy dros y Gymraeg yn y gymuned, yn fan cymhathu mewnfudwyr yn eu cynefin, ac i gael ei defnyddio i ddatblygu sgiliau a mentrau newydd.



3. Cynnal a Datblygu Cymunedau Cymraeg

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2011 wedi dangos yn glir nad yw polisiâu cynllunio lleol na chenedlaethol wedi llwyddo i atal dirywiad yn y cymunedau hynny sydd â chanrannau digon uchel o siaradwyr Cymraeg i'r iaith fod yn gyfrwng naturiol bywyd bob dydd ynddynt. Tri pharagraff yn nogfen Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol darfodedig o'r flwyddyn 2000 sydd yn ymdrin â chynlluniau datblygu unedol: dyna'r lle a ymroddir i'r iaith Gymraeg ym mholisi cynllunio Cymru. Er bod y polisi'n cydnabod y dylai'r gyfundrefn gynllunio ystyried anghenion a buddiannau'r iaith, y gwir amdani yw nad oes dim i sicrhau dyfodol cynaliadwy i gymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn yr un modd, mae dogfennau polisi cynllunio Cyngor Sir Gâr (Y Cynllun Datblygu Unedol a'r Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig) yn cynnwys datganiadau polisi cymeradwy ynglŷn â diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg. Serch hynny, yn wyneb polisiâu eraill sy'n tynnu'n groes i'r amcan hwnnw a diffyg peirianwaith effeithiol i roi'r polisiâu ar y Gymraeg ar waith, nid yw'r gyfundrefn gynllunio yn lleol chwaith yn cyflawni ei rôl yn cefnogi, hyrwyddo a datblygu cymunedau Cymraeg.

Fel cam cyntaf tuag at gywiro'r methiant hwn, mae'n angenrheidiol bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Gâr yn benodol, yn cydnabod bod gan y system cynllunio ran allweddol i'w chwarae i sicrhau dyfodol i gymunedau Cymraeg.

- 1) Dylai'r Llywodraeth sefydlu asiantaeth annibynnol i roi cyngor clir ac awdurdodol i awdurdodau cynllunio Cymru am yr effaith y mae datblygiadau tai yn debygol o'i gael mewn pob cais cynllunio o fewn ardaloedd ieithyddol sensitif. I'r perwyl hwn ac oherwydd yr argyfwng sydd yn wynebu'r iaith yn Sir Gaerfyrddin, dylai'r Cyngor Sir sefydlu peilot arbrofol cyn gynted ag y bo modd.
- 2) Dylai'r Cyngor Sir bwysu ar Lywodraeth Cymru i ailagor y broses o ddiwygio TAN20 (Nodyn Cyngor Technegol ar Gynllunio a'r iaith Gymraeg) ar frys er mwyn creu canllawiau cryf ac effeithiol i reoli'r system cynllunio mewn ardaloedd ieithyddol sensitif.
- 3) O ystyried canlyniadau'r Cyfrifiad, dylai'r Cyngor Sir adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol arfaethedig gan gydnabod nad yw'r cynllun bellach yn adlewyrchu'r heriau sydd yn wynebu'r iaith yn Sir Gaerfyrddin. Dylai'r Cynllun newydd gael ei seilio ar anghenion lleol ac ar gryfhau cymunedau a safle'r Gymraeg.
- 4) Galwn ar y Cyngor Sir i fabwysiadu Polisi Tai cynhwysfawr er diogelu cymunedau Cymraeg, gan sicrhau cyflenwad digonol o dai i gwrdd ag anghenion lleol, yn cynnwys tai fforddiadwy a thai ar rent a defnydd o gynlluniau cymorth prynu. O ran tai fforddiadwy mae'n angenrheidiol bod y Cyngor Sir yn gwrthsefyll ceisiadau gan ddatblygwyr i leihau'r canran o dai fforddiadwy mewn ystadau newydd. Croesewir penderfyniad y Cyngor Sir i adeiladu byngalos i'w rhentu yn ardal Llanelli am y tro cyntaf ers y 1980au. Dylai'r Cyngor hefyd hwyluso datblygiadau o dai i'w rhentu mewn cymunedau mwy gwledig ar gyfer pobl leol.
- 5) Fe fu cynnydd yn nifer y tai gwag yn Sir Gaerfyrddin o 3,600 i 5,300 yn ystod y degawd diwethaf yn ôl y Cyfrifiad, ac mae'r Cyngor wedi nodi 2,000 o dai a fu'n wag ers degawdau. Yn lle caniatáu miloedd o dai newydd dan y Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig, dylai'r Cyngor flaenoriaethu adfer y tai hyn fel rhan o gynllun adfywio cymunedol.

- 6) Galwn hefyd ar y Cyngor Sir a'r Llywodraeth i ailystyried Nodyn Cyngor Technegol 6 (TAN6) – *Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy*. Nod y polisi hwn yw creu “cymunedau gwledig cynaliadwy” trwy “sichrau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol”, ond mae rhai o amodau TAN6 yn rhy llym neu'n cael eu gweithredu'n rhy llym gan yr awdurdodau cynllunio. Dylid llacio'r rheolau hyn ac ychwanegu'r gallu i siarad Cymraeg fel un o'r ffactorau i'w hystyried.
- 7) Dylid adolygu polisiâu trafnidiaeth gyhoeddus i sichrau ei bod yn ymarferol bosibl i bobl ifanc fyw mewn cymunedau pentrefol ac ardaloedd gwledig Cymraeg a theithio yn hwylus at fannau gwaith a hamdden.



4. Hawl ac Angen y Gymraeg ar gyfer Gofal ac Iechyd

Yn gyffredinol, mae cryfhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaeth yn gwbl allweddol i'r ymdrech i sicrhau dyfodol i'r Gymraeg yn iaith fyw. Ym maes iechyd a gofal, mae'n fwy na hynny – yn aml iawn, mater o angen yn hytrach na dim ond dewis yw darparu gwasanaethau Cymraeg i lawer o bobl yng nghyd-destun iechyd, gofal a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n hanfodol felly bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac yn cael ei gynnig fel mater o drefn i bawb sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaethau hyn. Mae gan Gyngor Sir Gâr rôl bwysig yn hyn o beth - fel darparwr gwasanaethau gofal a chymdeithasol, dylai sicrhau bod pob un o'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg y sir. Mae'r Cyngor hefyd yn gallu rhoi arweiniad pwysig i gyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau gofal, iechyd a chymdeithasol ac fe ddylai sicrhau bod unrhyw ddarparwr y mae'n comisiynu gwasanaeth ganddo yn cwrdd â'r anghenion hyn wrth ddarparu'r gwasanaeth.

- 1) Dylid sicrhau hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob sector o fewn y maes iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogaeth barhaol er mwyn galluogi staff i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2) Dylid sicrhau bod rhaglenni hyfforddi staff yn pwysleisio effaith sensitifrwydd ieithyddol ar effeithiolrwydd gofal, a datblygu rhaglen ar gyfer rheolwyr i wella'r ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith yr iaith ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal.
- 3) Dylid darparu rhaglenni hyfforddiant i gynyddu gallu staff i ddarparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg ac i drefnu hyfforddiant er mwyn cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg presennol i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith.
- 4) Dylid sicrhau bod staff gwasanaethau a gofal cymdeithasol yn gwisgo'r logo "Iaith Gwaith" ac i ymgorffori'r logo "Iaith Gwaith" ar wisgoed y gweithwyr.
- 5) Dylid sicrhau bod gofal cymunedol yn cael ei ddarparu yn ôl angen iaith y cleiant ar bob achlysur. Golyga hyn gynnig gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn ar bob achlysur a chofnodi angen iaith y defnyddiwr gwasanaeth er mwyn gallu sicrhau bod gan y swyddogion sydd yn ymwneud â'r cleiant y sgiliau ieithyddol angenrheidiol. Dylid trefnu awdit rheolaidd o'r ddarpariaeth yma er mwyn sicrhau bod y safonau yn cael eu cynnal.
- 6) Dylid monitro yn agos ddarpariaeth ieithyddol cwmnïau allanol sydd yn darparu gofal cymunedol er mwyn sicrhau eu bod nhw hefyd yn cynnig gofal yn ôl angen iaith y cleiant.
- 7) Dylid sicrhau bod gofal preswyl ar gael yn ôl angen iaith y cleiant. Dylid sicrhau bod cartrefi gofal yn cydymffurfio gyda'r safonau hyn a bod gan bob gartref bolisi iaith.
- 8) Dylid sicrhau bod digon o staff cartrefi preswyl sy'n siarad Cymraeg yn gweithio ar bob shift er mwyn bodloni anghenion ieithyddol y preswylwyr. Dylid sicrhau bod modd bodloni hyn wrth benodi staff newydd.

5. Pobl Ifanc a'r Gymraeg

Mae yna ystod eang o wasanaethau hamdden yn cael eu cynnig i bobl ifanc y sir, ac mae'r Cyngor Sir yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae'r ffaith bod darpariaeth hamdden y Cyngor yn Saesneg ar y cyfan yn cadarnhau'r syniad mai iaith berthnasol i addysg yn unig yw'r Gymraeg. Dylai adrannau gwahanol ategu yn hytrach na thanseilio ymdrechion yr adran addysg i sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog erbyn cwblhau eu haddysg yn yr ysgolion. Mae'n bwysig felly bod gweithgareddau hamdden ac adloniant ar gael yn Gymraeg a bod mynediad rhwydd atynt.

- 1) Galwn ar y Cyngor Sir i sicrhau bod pob gwasanaeth addysg atodol, darpariaeth hamdden ac adloniant mae'n ei ddarparu yn cael ei ddarparu yn Gymraeg, e.e. gwersi chwaraeon ac offerynnol, clybiau ieuenctid, gwasanaethau ieuenctid; a bod unrhyw gorff sy'n darparu gwasanaeth ieuenctid ar ran y Cyngor neu gyda chefnogaeth y Cyngor - drwy grant ariannol, defnydd o leoliadau/adnoddau'r Cyngor ac ati, hefyd yn darparu hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2) Dylai'r Cyngor gynllunio'n rhagweithiol i sicrhau bod amrediad eang o gyfleoedd hamdden ac adloniant trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu i bobl ifanc yn eu cymunedau ledled y Sir.



Cyhoeddwyd gan: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Rhanbarth Sir Gâr, Dolwerdd, Llanfihangel ar Arth,
Pencader, Sir Gaerfyrddin, SA39 9JU - 01559 384378 - sioned@cymdeithas.org